Cyferiad e-bost myfyriwr

Jun 01, 2026

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Ffurflen Gais Cronfa Ariannol Wrth Gefn

Medi 2026 - Mehefin 2027

**Mae eich cais am CAWG yn dibynnu ar brawf modd seiliedig ar incwm y cartref y mae'n rhaid iddo fod yn llai na £24,570 y flwyddyn er mwyn i fyfyrwyr fod yn gymwys. Mae'r gronfa yn agor ar 1 Mehefin 2026. Sylwch - rhoddir dyfarniadau CAWG yn ôl disgresiwn ac nid ydynt yn hawl. Mae arian yn gyfyngedig ac nid oes unrhyw ddyfarniadau wedi'u gwarantu. Caiff ceisiadau eu prosesu yn nhrefn y dyddiad y derbynnir y ceisiadau.**

Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â Chynghorydd Cyllid Myfyrwyr:
Campysau Tycoch/Llwyn y Bryn/Llys Jiwbilî 01792 284010 neu Gampws Gorseinon 01792 890774/01792 890758.

## Adran A: **Cymhwystra – Statws Preswyl**

**1.** Ydych chi wedi bod yn breswylydd yn y DU, Y Swistir, yr UE/AEE am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf eich cwrs?

**Ydw** ☐ **Na** ☐ Os ydych chi'n: Wladolyn y DU, Dinesydd Iwerddon neu aelod o deulu Gwladolyn y DU ☐

Arall ☐ : ______________________________

Os ateboch Ydw, ewch i gwestiwn 6.

**2.** Ydych chi wedi cael Caniatâd Amhenodol i Aros/Diogelwch Dyngarol? **Ydw** ☐ **Na** ☐ **Amherthnasol** ☐

Os ydych nodwch eich gwlad wreiddiol ______________________________

a dyddiad mynediad i'r DU, y Swistir neu'r UE/AEE*: D D M M B B B B

**Bydd rhaid i chi roi eich pasport i ni (sydd wedi cael ei stampio gan yr adran fewnfudo) a/neu eich dogfennau Swyddfa Gartref.*

**3.** Ydych chi'n fyfyriwr yr UE a gafodd gyllid CAWG y flwyddyn academaidd ddiwethaf? **Ydw** ☐ **Na** ☐

**4.** Ydych chi'n fyfyriwr yr UE sydd wedi cael Statws Preswylydd Sefydlog neu Gyn-sefydlog o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE? **Ydw** ☐ **Na** ☐ Os ydych, rhaid i chi roi manylion:

Statws Sefydlog ☐ Statws Cyn-sefydlog ☐ dyddiad dod i ben: D D M M B B B B

Cod Rhannu'r Swyddfa Gartref** ______________________________

***Mae angen hwn arnom cyn y gallwn brosesu'ch cais*

**5.** Ydych chi'n Geisiwr Lloches (neu ddibynnydd) sy'n derbyn cymorth o dan unrhyw un o'r Deddfau canlynol?

**Ydw** ☐ **Na** ☐ Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 | Deddf Plant 1989 | Deddf Cymorth Gwladol 1948

## Adran B: **Manylion y myfyriwr** Ticiwch bob blwch perthnasol.

**6.** Mr ☐ Miss ☐ Mrs ☐ Arall ______________

Cyfenw: ______________

Enwau cyntaf: ______________

Rhif y tŷ a'r stryd: ______________

______________

Tref neu ddinas: ______________

Rhif ffôn cartref: ______________

Rhif ffôn symudol: ______________

Dyddiad geni: D D M M B B B B

Rhif adnabod y myfyriwr: ______________

Cod post: ______________

## Adran C: **Manylion eich cwrs** Ticiwch bob blwch perthnasol

**7.** Beth yw'ch prif faes (feysydd) astudio?

Cwrs ________________________________________ Lefel ______________

Amser llawn ☐ Rhan-amser* ☐

*Mae'n rhaid eich bod yn astudio o leiaf un cwrs sy'n fwy na 275 awr i fod yn gymwys i gael arian.

Campws: Gorseinon ☐ Tycoch ☐ Llwyn y Bryn ☐ Llys Jiwbilî ☐ Ffordd y Brenin ☐

## Adran D: **Eich Cais am Gymorth CAWG** Ticiwch bob blwch perthnasol

**8.** Gall CAWG gyfrannu at unrhyw offer hanfodol ar gyfer eich cwrs. Yn ogystal, gall dalu am wiriad DBS (os yw'n ofynnol ar gyfer eich cwrs), tocyn bws a chyfrannu at gostau gofal plant os yw'n berthnasol.

**Ni allwch hawlio ar gyfer y ffi gofrestru. Mae'r gronfa'n cael ei dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin.**

**Oes angen tocyn bws arnoch?** Oes ☐ Nac oes ☐

Hoffech chi gwrdd â Chynghorydd Cyllid Myfyrwyr i gael cyngor ar gymorth ariannol ar gyfer unrhyw gostau gofal plant posibl wrth i chi astudio yn y Coleg? Hoffwn ☐ Na hoffwn ☐

## Adran E: **Manylion y cartref a thystiolaeth ofynnol**

**9.** Mae CAWG yn dibynnu ar incwm y cartref. Rhaid i incwm y cartref fod yn **llai nag £24,570 y flwyddyn** i fyfyrwyr fod yn gymwys. Rhowch fanylion holl aelodau'r cartref, eu galwedigaeth a'u perthynas i chi.

| Enw | Galwedigaeth | Perthynas i'r Myfyriwr |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth wreiddiol isod er mwyn i ni allu asesu incwm y cartref.

| Ffynhonnell yr Incwm | Tystiolaeth Ofynnol |
|---|---|
| Dadansoddiad o Gredyd Cynhwysol neu Gymhorthdal Incwm (IS) neu Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) | Dau fis o ddatganiadau banc diweddar a llythyr budd-daliadau perthnasol sy'n dangos eich enw, eich cyfeiriad a faint o fudd-dal sy'n cael ei dderbyn. |
| Prawf Incwm | Dau ddatganiad banc diweddar a slipiau cyflog y ddau fis diwethaf, Credyd Cynhwysol yn dangos dadansoddiad o daliadau neu Hysbysiad Dyfarnu'r Credyd Treth (TCAN) 2025/26. |
| Pensiwn | Datganiadau banc y ddau fis diwethaf a llythyr yn cadarnhau swm pensiwn. |
| Hunangyflogedig neu Fusnes Preifat | Datganiadau banc y ddau fis diwethaf, Chyfrifon Blynyddol Ardystiedig, Ffurflen Hunanasesu Treth, Llythyr Credyd Cynhwysol sy'n dangos dadansoddiad o daliadau neu Hysbysiad Dyfarnu'r Credyd Treth TC602 (TCAN) 2025/2026. |
| Cerdyn ASPEN | Rhif cyfeirnod cerdyn a dyddiad dod i ben. |

Adran F: **Datganiad**

Datganaf fod yr wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais hon yn gywir.

Deallaf y gall rhoi gwybodaeth anghywir, neu fethu â datgelu'r holl wybodaeth berthnasol, arwain at wrthod fy nghais am gymorth Cronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG) a gallaf fod yn destun camau disgyblu neu gyfreithiol gan Goleg Gŵyr Abertawe a gall fy nghyllid gael ei dynnu yn ôl.

Cytunaf i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol i Goleg Gŵyr Abertawe er mwyn i'r Coleg allu prosesu fy nghais.

Byddaf yn hysbysu Tîm Cyllid Myfyrwyr ar unwaith os bydd unrhyw newid yn fy amgylchiadau ariannol, fy nghyfeiriad, neu fy statws fel myfyriwr.

Os bydd fy mhresenoldeb yn llai na 80%, neu os na fyddaf yn bodloni terfynau amser y cwrs, mynychu arholiadau neu'n tynnu fy enw o'r rhaglen astudio a enwir ar y ffurflen hon, deallaf y gallai taliadau CAWG gael eu tynnu yn ôl, ac efallai y byddaf yn cael fy ailasesu neu bydd gofyn i mi ad-dalu'r dyfarniad i gyd neu ran ohono.

Os byddaf yn cael cymorth CAWG yn y cyfamser (ar ôl i mi wneud cais am LCA a/neu gyllid GDC ond cyn i mi ei dderbyn), deallaf y bydd gofyn i mi ad-dalu'r dyfarniad CAWG i gyd neu'n rhannol ar ôl i mi gael cyllid LCA a/neu gyllid GDC.

Rhaid i chi ddychwelyd yr holl lyfrau, offer a thocynnau bws sydd wedi cael eu cyllido gan CAWG cyn i chi adael y Coleg. Os byddwch yn methu â gwneud hyn efallai y bydd unrhyw geisiadau i'r Coleg yn y dyfodol yn cael eu gwrthod.

Os bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn rhoi cyllid i mi nad oes hawl gennyf ei gael, byddaf yn ad-dalu unrhyw ordaliad.

Yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, pan fyddaf yn llofnodi'r ffurflen hon, rhoddaf ganiatâd i Goleg Gŵyr Abertawe ryddhau fy ngwybodaeth i AdAS, a thrydydd partïon eraill lle bo angen.

**Llofnod y Myfyriwr:** ______________________________ **Dyddiad:** | D | D | M | M | B | B | B | B |

A llofnod rhiant, gwarcheidwad, neu ofalwr os ydych o dan 18 ar ôl 01/09/2026

**Llofnodwyd:** ______________________________ **Dyddiad** | D | D | M | M | B | B | B | B |

Adran G: **Dychwelyd y ffurflen**

I'r myfyrwyr sy'n astudio yn Nhycoch, Llwyn y Bryn, Ffordd y Brenin neu Lys Jiwbilî dychwelwch y ffurflen gais hon at:

**fcfapplicationstyc@gcs.ac.uk**

neu

**Coleg Gŵyr Abertawe**
**Heol Tycoch**
**Abertawe**
**SA2 9EB**

I'r myfyrwyr sy'n astudio yng Ngorseinon dychwelwch y ffurflen gais hon at:

**fcfapplicationsgors@gcs.ac.uk**

neu

**Coleg Gŵyr Abertawe**
**Heol Belgrave**
**Gorseinon**
**SA4 6RD**

**Diogelu Data:**

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn casglu gwybodaeth am bob un o'i fyfyrwyr am resymau gweinyddol, academaidd ac iechyd a diogelwch amrywiol. Rheolir ein defnydd o wybodaeth gan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Caiff yr wybodaeth a rowch ar y ffurflen gais hon ei rhoi i AdAS Adran Addysg a Sgiliau, sydd wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae cofrestru at ddiben casglu a dadansoddi data ystadegol yn bennaf ond mae hefyd yn cynnig modd i'r Cyngor rannu gwybodaeth â sefydliadau eraill at ddiben darganfod twyll.

Mae gwybodaeth bellach am ddefnyddio data ar gael gan Uned Rheoli Gwybodaeth Coleg Gŵyr Abertawe.

Jun 01, 2026

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

**AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG**

**AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG**

Dyddiad D D M M B B B B Gwirio Cofrestriad ☐ Prawf incwm ☐ Bodloni meini prawf CAWG ☐

| **Cymeradwyo:** | Swm | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cyllid Myfyrwyr | £ | | D D M M B B B B |
| Swyddog Cyllid CAWG | £ | | D D M M B B B B |
| Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr | £ | | D D M M B B B B |
| **Penderfyniad y Panel** | **Ie** ☐ **Na** ☐ | | D D M M B B B B |

# Cronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG)

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Mae CAWG yn gronfa caledi sy'n agored i bob myfyriwr amser llawn lle mae incwm yr aelwyd yn llai na £24,570 (incwm gros). Dyrennir arian ar sail y cyntaf i'r felin. Bydd angen i chi ddarparu prawf o incwm cartref ac, os yw'n berthnasol, prawf o'ch statws preswyl. Mae'r gronfa'n agor ar 1 Mehefin ac rydym yn gallu derbyn ceisiadau drwy'r post neu ar-lein. Neu gallwch wneud cais yn bersonol gyda Chynghorydd Cyllid Myfyrwyr yn y Coleg.

Os ydych yn fyfyriwr sy'n dychwelyd a gafodd gyllid CAWG y llynedd, cofiwch fod CAWG yn grant blynyddol a bod rhaid i chi lenwi ffurflen gais newydd i wneud cais arall am gyllid.

# Canllaw cam wrth gam:

### Adran A: Cymhwystra – Statws Preswyl

Ticiwch y blwch sy'n berthnasol i'ch statws. Os ydych wedi ticio 'ydw' i Gwestiwn 2, ar gyfer ceisiadau ar-lein bydd rhaid i chi gynnwys llun o'ch pasport ynghyd â'r ffurflen gais.

### Adran B: Manylion y myfyriwr

Sicrhewch eich bod yn ticio'r holl flychau perthnasol. Ni fydd gennych Rif Adnabod Myfyriwr eto os ydych yn fyfyriwr newydd.

### Adran C: Manylion eich cwrs

Ticiwch Oes neu Nac oes os oes angen tocyn bws arnoch i deithio i'r Coleg.

Ticiwch Hoffwn os hoffech i Gynghorydd Cyllid Myfyrwyr gysylltu â chi am ofal plant.

### Adran D: Eich cais am gymorth CAWG

Ticiwch Ie neu Na os oes angen tocyn bws arnoch i deithio i'r Coleg.

Ticiwch Ie os hoffech i Gynghorydd Cyllid Myfyrwyr gysylltu â chi am ofal plant.

### Adran E: Manylion yr aelwyd a thystiolaeth sy'n ofynnol

Cwestiwn 9: nodwch fanylion holl aelodau'r cartref a'u perthynas i chi. Ni fyddwn yn cynnwys unrhyw incwm, buddion na phensiwn gan frodyr a chwiorydd neu neiniau a theidiau oni bai bod y myfyriwr yn ddibynnol yn ariannol arnynt.

Os ydych yn gwneud cais ar-lein, byddwn yn derbyn copïau neu sgrin-brintiadau y bydd rhaid eu hanfon gyda'ch cais ar-lein.

Gwiriwch y tabl tystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn eich ffynhonnell incwm a sicrhau eich bod yn atodi copïau o bopeth rydym yn gofyn amdano.

Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol bydd angen i ni weld dadansoddiad yn dangos y gwahanol elfennau rydych yn eu derbyn.

### Adran F: Datganiad

Os ydych yn gwneud cais ar-lein, teipiwch enwau'r myfyriwr a'r rhieni wrth ymyl y llofnodion a rhoi'r dyddiad ar y ffurflen. Fel arall, llofnodwch y datganiad a rhoi'r dyddiad.

### Adran G: Dychwelyd y ffurflen

Er mwyn atal unrhyw oedi cyn brosesu'ch cais, gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi pob adran ar y ffurflen ac wedi atodi'r incwm cartref perthnasol sydd ei angen.

I'r myfyrwyr sy'n astudio yn Nhycoch, Llwyn y Bryn, Canolfan Ffordd y Brenin neu Lys Jiwbilî, e-bostiwch y ffurflen gais hon ynghyd â'r dystiolaeth ariannol i:

**fcfapplicationstyc@gcs.ac.uk** neu

**Coleg Gŵyr Abertawe**
**Heol Tycoch**
**Abertawe**
**SA2 9EB**

I'r myfyrwyr sy'n astudio yng Ngorseinon, e-bostiwch y ffurflen gais hon ynghyd â'r dystiolaeth ariannol i:

**fcfapplicationsgors@gcs.ac.uk** neu

**Coleg Gŵyr Abertawe**
**Heol Belgrave**
**Gorseinon**
**SA4 6RD**

Os bydd eich cais yn bodloni'r meini prawf cymhwystra, byddwch yn derbyn llythyr dyrannu CAWG a bydd rhaid i chi ddod â hwn gyda chi i'r cyfweliad cofrestru.

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Hysbysiad Preifatrwydd Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

Pan fyddwch yn gwneud cais am gymorth gan Gronfa Ariannol Wrth Gefn, bydd angen ichi ddarparu ychydig o wybodaeth i ni. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro pa wybodaeth sydd eisiau arnom, y rhesymau dros gasglu'r wybodaeth, gyda phwy rydym yn ei rannu, eich hawliau, ac yn olaf, y cyfnod y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth. Mae fersiwn mwy cyflawn o'r hysbysiad ar gael yma: www.gcs.ac.uk/cy

Rydym yn Goleg, ac fel rhan o'n cyfrifoldebau cyfreithiol mae'n rhaid inni ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd ei angen.

Rhaid i ni benferfynu a ydych yn gymwys i gael y cymorth ariannol hwn, felly gofynnir i chi ddarparu eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn, yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth bersonol megis eich statws preswyl a gwybodaeth am eich cartref a'ch teulu. Bydd angen i chi ddarparu enwau a dyddiadau geni unrhyw blant sydd gennych chi, enwau a theitlau swyddi unrhyw aelodau eraill o'ch cartref ynghyd â'u perthynas i chi. Bydd angen arnom eich rhif adnabod myfyriwr, manylion eich cwrs a'ch lefel astudio hefyd.

Yn ogystal â hyn, mi fydd angen inni hefyd weld tystiolaeth o gyllid eich cartref. Ni fyddwn yn cadw'r wybodaeth yma unwaith y byddwn wedi ei weld.

Efallai bydd rhaid inni rannu ychydig o'ch gwybodaeth gydag archwilwyr neu Lywodraeth Cymru, er enghraifft. Os ydym yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw un, byddwn yn sicrhau, trwy gytundeb â nhw, eu bod yn ei gadw'n ddiogel.

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Gall Lywodraeth Cymru defnyddio'ch gwybodaeth at ddibenion ymchwil heb eich caniatâd. Mi fydd archwilwyr yn gwirio bod y Gronfa wedi'i ddefnyddio'n gywir. Byddwn ni yn rhoi gwybod i chi os byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth.

Mae'n ddyletswydd arnom i gadw'ch data yn ddiogel am chwe blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd y gwnaethoch dderbyn cymorth ariannol y Gronfa.

Mae gennych hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth rydych chi'n ei ddarparu i ni. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys eich bod yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth, a'i chywiro os yw'n anghywir. Efallai y bydd gennych, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, a'r wybodaeth rydych wedi ei ddarparu, hawl i ddileu eich data, neu ei gyfyngu a'i atal rhag cael ei brosesu.

Gallwch gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth os nad ydych chi'n anhapus gyda'r ffordd mae'r Coleg wedi prosesi eich gwybodaeth prosesu. www.ICO.org.uk

Gallwch hefyd gysylltu â Swyddog Diogelu Data y Coleg. Dpo@gcs.ac.uk